# Prosiect i Adnewyddu'r Cysylltiad rhwng Cei Connah a Bodelwyddan

## Cwestiynau cyffredin



### What enabling works will be taking place?

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu gwneud ein gwaith mor ddiogel ac effeithlon â phosibl, byddwn yn gwneud nifer o dasgau a elwir yn waith galluogi.

Bydd hyn yn cynnwys

- Clirio llystyfiant
- Lledu mynedfeydd i ffyrdd os ydynt yn gul
- Gosod sgaffaldiau a thracffyrdd mewn caeau

Rydym yn cynnal arolygon ecolegol ac archaeolegol cyn dechrau ar unrhyw waith er mwyn sicrhau ein bod yn effeithio cyn lleied ag y bo modd ar yr ardal leol.

### Pam y mae angen clirio llytyfiant?

Mae angen i ni glirio llystyfiant sydd wedi tyfu o dan ac o gwmpas traed rhai peilonau ac o dan linellau uwchben fel y gall ein contractwyr fynd a dod yn ddiogel i'r safleoedd gweithio.

Mae National Grid wedi ymrwymo i sicrhau bod y gwaith yn amharu cyn lleied ag y bo modd ar fywyd gwyllt ac amgylchedd yr ardal. Byddwn yn cydweithio ag ecolegydd pan fyddwn yn clirio llystyfiant er mwyn sicrhau ein bod yn clirio cyn lleied â phosibl.

### Pam rydych yn gosod sgaffaldiau?

Bydd angen i ni osod sgaffaldiau er mwyn gwneud rhai rhannau o'n gwaith. Trwy osod sgaffaldiau, gallwn darfu cyn lleied â phosibl ar ffyrdd a busnesau sydd o dan y llinell drydan uwchben.

### A fydd angen cau ffyrdd?

Weithiau, bydd angen i rai ffyrdd gael eu cau dros dro fel rhan o'n gwaith galluogi a'n prif waith. Ni fyddwn yn cau ffyrdd os gallwn beidio, ond weithiau mae hynny'n angenrheidiol er mwyn cadw defnyddwyr y ffyrdd a'n timau'n ddiogel.

Os oes modd, pan fydd angen cau ffyrdd, byddwn yn codi arwyddion i roi gwybod i bobl ymlaen llaw a byddwn yn anfon llythyrau at drigolion a busnesau lleol.  Byddwn hefyd yn ceisio trefnu mynediad hanfodol i'r trigolion tra bydd y ffyrdd wedi cau, os gellir gwneud hynny'n ddiogel.

### A fydd y gwaith yn effeithio ar fy ngallu i fynd a dod i fy eiddo?

Os byddwn yn credu bod y gwaith yn debygol o achosi unrhyw anhwylustod ger eich eiddo, byddwn yn cysylltu â chi ymlaen llaw â'r manylion perthnasol.

### Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i warchod yr amgylchedd?

Cyn dechrau unrhyw brosiect, rydym yn cynnalasesiad amgylcheddol o unrhyw fannau y gallai ein gwaith effeithio arnynt.  Mae hyn yn cynnwys siarad ag ystod eang o grwpiau amgylcheddol lleol a pherchnogion tiroedd er mwyn sicrhau, os oes modd, nad ydym yn amharu ar yr amgylchedd nac yn tarfu ar fywyd gwyllt.

### Beth yw ymlediad ceg cloch [bellmouth widening] a beth yw ystyr gosod tracffyrdd?

Er mwyn paratoi ar gyfer ein prif waith, bydd angen i ni ledu ffyrdd mynediad mewn rhai mannau (gelwir hyn yn ymlediad ceg cloch [bellmouth widening]) er mwyn sicrhau bod modd mynd ag offer yn ddiogel ac yn effeithlon at y llinell drydan uwchben. Trwy wneud y gwaith hwn cyn gwneud y prif waith adnewyddu peilonau, gallwn sicrhau ein bod yn creu cyn lleied o anhwylustod â phosibl.

Efallai y bydd angen i ni osod tracffyrdd dros dro, hefyd, i greu llwybr mynediad at y llinell drydan uwchben.

### Gyda phwy rydych chi'n gweithio ar y prosiect?

Mae National Grid yn cydweithio â nifer o bartneriaid ar gontract i gyflawni ei brosiectau allweddol.  Gwneir gwaith galluogi a phrif waith y prosiect hwn o dan arweiniad Morrison Energy Services, darparwr gwasanaethau sy'n cydweithio â rhwydweithiau ynni cenedlaethol a sefydliadau cyhoeddus i atgyweirio, adnewyddu, ailwampio a chynnal seilwaith nwy, trydan ac ynni gwyrdd y wlad, gan ganolbwyntio ar ddatgarboneiddio er mwyn hwyluso'r newid i economi sero net.

### A fydd angen i chi gau llwybrau troed?

Mae ein llinell uwchben yn croesi rhai llwybrau sydd â hawliau tramwy cyhoeddus a hawliau tramwy caniataol. Felly bydd angen i rai llwybrau troed gael eu cau a/neu eu dargyfeirio dros dro er diogelwch y cyhoedd wrth i ni weithio uwchben. Lle gallwn, byddwn yn ceisio rhoi gwybod i'r cymunedau lleol ymlaen llaw a gwnawn ein gorau glas i amharu cyn lleied ag y gallwn wrth wneud ein gwaith.

### Sut bydd y prosiect yn helpu'r Deyrnas Unedig i gyrraedd sero net?

Mae National Grid Electricity Transmission yn adnewyddu'r darn 30km hwn o linellau trydan foltedd uchel, uwchben, fel y gellir trawsyrru mwy o drydan a chysylltu mwy o brosiectau ynni glân yng Nghymru a Lloegr â rhwydwaith trydan y DU.

Mae'r prosiect yn un o gyfres o gynlluniau uwchraddio cylchedau sy'n digwydd ledled y DU gyda'r nod o gyflymu cysylltiadau â'r rhwydwaith trawsyrru trydan a chynnal system ynni gadarn, fforddiadwy, sero net.

Bydd y gwaith adnewyddu hanfodol hwn yn sicrhau diogeledd ynni hirdymor ar y rhwydwaith trawsyrru trydan foltedd uchel a'r rhwydwaith dosbarthu lleol sy'n cyflenwi cartrefi a busnesau.

### A fydd y llinell yn edrych yn wahanol ar ôl ei hadnewyddu?

Ar ôl ei hadnewyddu bydd y llinell yn edrych bron yn union yr un fath â'r llinell bresennol ond bod y peilonau'n cario llai o wifrau. Ar hyn o bryd, mae pob braich ar y peilonau'n cario pedair gwifren. Oherwydd datblygiadau technolegol, gallwn drawsyrru yr un faint o bŵer gan ddefnyddio dim ond tair gwifren ar bob braich o hyn ymlaen.

### A fydd hyn yn effeithio ar gyflenwadau trydan i gartrefi a busnesau?

Rydym yn cydweithio â Scottish Power Energy Networks (SPEN), sy'n rhedeg y rhwydwaith trydan lleol, i leihau'r effeithiau ar bobl a busnesau lleol. Os bydd angen diffodd y trydan dros dro unrhyw bryd, bydd pobl yr ardal yn cael gwybod a chedwir mewn cysylltiad â nhw.

### Pryd fyddwch chi'n dechrau ar y prif waith?

Mae dau gam i'r gwaith o adnewyddu'r llinellau uwchben. Mae cam un, sef y gwaith galluogi a amlinellir yn y llythyr hwn, yn digwydd o hyn tan fis Gorffennaf 2025.

Cyn gynted ag y caiff ein gwaith galluogi ei gwblhau, byddwn yn gwneud ein gwaith adnewyddu rhwng diwedd Gorffennaf 2025 a dechrau Medi 2026.

### Ble gaf i ragor o wybodaeth?

Rydym wedi rhoi rhagor o fanylion am y gwaith adnewyddu ar wefan y prosiect, yn **nationalgrid.com/connahsquay**

Byddwn yn dal i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi wrth i'n gwaith symud ymlaen.

Os oes gennych chi neu'ch cymuned ryw gwestiwn, gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

## Cysylltu â ni

Os oes gennych ryw gwestiwn am y prosiect neu os hoffech ragor o wybodaeth, gallwch gysylltu â'n Tîm Cysylltiadau Cymunedol.

Gallwch wneud hyn trwy:
Ebostio: **connahsquay@nationalgrid.com** Ffonio: **0800 138 5409**

Mae'r llinell hon ar gael o **9am tan 5:30pm, o ddydd Llun tan ddydd Gwener**. Os gofynnir i chi, gadewch neges gyda'ch enw a'ch rhif cyswllt ac fe wnawn ni gysylltu â chi cyn gynted ag y gallwn.